

<p><u>Yn Bresennol</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Fiona Kinghorn Sheila Hendrickson-Brown Wendy Gunney Sarah McGill Huw Jakeway Mark Brace Gareth Newell Alun Michael Amelia John Paul Orders Michael Evans Abigail Harris</p> <p>Ymddiheuriadau: Hannah Williams Gareth O'Shea Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd)</p> <p>Hefyd yn bresennol: Sian Sanders Nathan Swain Clive Bailey Lauren Idowu (Eitem 5) Steve Morris (Eitem 5) Laura Williams (Eitem 5) Ben O'Connell (Eitem 5) Tom Porter (Eitem 6) Lee Patterson (Eitem 7)</p>	<p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP Caerdydd a'r Fro) Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Prif Swyddog Tân, GTADC Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru Prif Weithredwr, CC Cyfoeth Naturiol Cymru Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC Arweinydd, Cyngor Caerdydd</p> <p>Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Prif Arbenigwr Hybu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru Rheolwr Chwaraeon, Hamdden a Datblygu, CC Pennaeth Chwaraeon Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Cyfarwyddwr Chwaraeon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, BIP Caerdydd a'r Fro Cydlynnydd Dinas sy'n Dda i Blant, CC</p>
--	---

Rhif	Eitem ar yr Agenda	
1.	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Agorodd yr Is-gadeirydd oedd yn gweithredu fel Cadeirydd, y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p>	
2.	<p>Cofnodion a Chamau Gweithredu</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd 22 Medi 2021 a 10 Tachwedd 2021.</p>	
3.	<p>Pwysau ar wasanaethau</p> <p>Gwahoddwyd pob sefydliad BGC i roi amlinelliad o'r pwysau uniongyrchol a thymor canolig yr oedd y gwasanaethau'n eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig ac wrth i'r gaeaf agosáu.</p> <p>Crynodeb o'r pwysau uniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galw am wasanaethau - sydd wedi cronni yn ystod y pandemig ac mewn sawl achos yn fwy na lefelau cyn y pandemig • Staffio – materion recriwtio a gofynion ynysu yn parhau i greu bylchau yn y gweithlu • Amrywiolyn newydd a'r cyhoedd yn llai goddefgar o'r cyfyngiadau <p>Amlygodd Cyngor Caerdydd bwysau sylweddol ar y Gwasanaethau Gofal Cartref a Phlant. Mae cyllid ar gael i fynd i'r afael â'r materion, ond mae staffio'n parhau i beri pryder. Yn fewnol bydd galwad o'r newydd i 'ail-gyfeirio' staff. Yn allanol bydd y Cyngor yn chwilio am wirfoddolwyr ac yn cynnal ymgyrch i recriwtio gofalmwyr - efallai y bydd angen cymorth gan bartneriaid i'w hyrwyddo ymhlith eu gweithluoedd a'u rhwydweithiau.</p> <p>Amlygodd BIP Caerdydd a'r Fro oedi ar draws y system, gyda phobl yn cyflwyno'u hunain i arbenigwyr gofal iechyd yn ystod cyfnodau mwy datblygedig a chymhleth. Bydd yr angen i gyflymu'r rhaglen frechu i roi pigiadau atgyfnerthu yn creu pwysau ychwanegol ledled y system.</p> <p>Amlygodd Heddlu De Cymru gynnydd yn y galw ar draws nifer o feysydd, yn cynnwys diogelu, trais yn erbyn menywod, treisio a throseddau rhyw. Mae dychwelyd i galendr prysur o brotestiadau/digwyddiadau yn rhoi pwysau ar y gallu i ymateb.</p> <p>Amlygodd C3SC fod grwpiau sydd fel arfer yn dibynnu ar wirfoddolwyr hŷn yn cael anawsterau, ac mae llawer o bobl eisiau cynyddu eu gwaith gwirfoddoli ond ddim yn siŵr sut i weithredu ar hyn.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch sut i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Amlygwyd pwysigrwydd negeseuon cyson ar draws y sector cyhoeddus i sicrhau nad yw gwaith da yn cael ei beryglu gan negeseuon datgymalog neu sy'n gwrthdaro.</p>	

Rhif	Eitem ar yr Agenda	
	<p>Nodwyd y gallai fod angen cyfarfodydd ychwanegol pe bai materion Covid-19 angen sylw mwy penodol.</p>	
<p>4.</p>	<p>Blaenoriaethau ac Adolygiad Llywodraethu ac Asesiad Caerdydd o Les Lleol</p> <p>Rhoddodd Gareth Newell adborth ar yr adolygiad o lywodraethu BGC a blaenoriaethau'r dyfodol. Amlygwyd y bydd y BGC yn ceisio canolbwyntio ar nifer llai o faterion sydd yn eu hanfod yn gofyn am weithio mewn partneriaeth. Gall ffrydiau gwaith adrodd i fyrddau eraill fel y BPRh, ond bydd golwg glir ar y BGC.</p> <p>Tynnodd y Comisiynydd Heddu a Throsedd Alun Michael sylw at yr angen am olwg glir rhwng y BGC a'r BPRh er mwyn i holl bartneriaid y BGC allu cyfrannu a bod dyblygu trafodaethau yn cael ei osgoi.</p> <p>Rhoddodd Gareth Newell drosolwg o'r cynnydd o ran datblygu Asesiad Caerdydd o Les Lleol. Caiff hyn yn cael ei rannu gydag aelodau yn ystod yr wythnosau nesaf cyn cyfnod ymgynghori.</p>	
<p>5.</p>	<p>Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon 2022-2027</p> <p>Mae cynrychiolwyr Cyngor Caerdydd, BIP Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd wedi cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon Caerdydd 2022-2027: Symud Mwy Caerdydd. Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer blwyddyn 1 i'r BGC.</p> <p>Cydnabu'r Bwrdd gryfder y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu hwn, fydd yn rhoi ffordd ymlaen wedi'i chynllunio ar gyfer prosiectau ac yn hwyluso dod ag adnoddau at ei gilydd a'u targedu.</p> <p>Cafwyd trafodaeth hefyd ar ddatblygu cyfleoedd ariannu o amgylch digwyddiadau a chyfleoedd i sefydliadau gyflawni buddion cymunedol.</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhaodd y BGC eu cefnogaeth i Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon 2022-2027 ac iddi symud ymlaen i gymeradwyaeth ffurfiol trwy gyfarfodydd Craffu a Chabinet y Cyngor.. 	
<p>6.</p>	<p>Diweddariad Siarter Teithio Llesol Staff</p> <p>Rhoddodd Tom Porter y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn yr ymrwymadau yn Siarter Teithio Llesol Staff gan nodi nad yw llawer o sefydliadau wedi gallu cyrraedd targedau i'r pandemig ac yng nghydestun gweithio gartref.</p>	

Rhif	Eitem ar yr Agenda	
	<p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd a chytunwyd ar ddull diwygiedig gan y Bwrdd yn cynnwys ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau ymrwymadau yn derfynol hyd at fis Medi 2022. • Cytunwyd, yn hytrach na chyflwyno siarter 'lefel 2' arall, bod gwaith yn cael ei wneud i ail-lunio'r Siarter Teithio Llesol i adlewyrchu symud i ffwrdd o weithio yn y swyddfa. 	<p>Tom Porter</p> <p>Tom Porter</p>
7.	<p>Cyfranogiad Ieuenctid BGC</p> <p>Amlinellodd Lee Patterson nifer o gynigion gyda'r nod o gynnwys pobl ifanc yng ngwaith y BGC.</p> <p>Amlygodd y Bwrdd nifer o bwyntiau i'w hystyried ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dewis cyffredinol am hybrid o opsiynau 2 a 3 • Mae'n rhaid i ddulliau ddatblygu'r cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli (fel Cadetiaid Tân De Cymru a grwpiau partner ieuenctid eraill PSB) - ac osgoi dyblygu • Mae'n rhaid i'r ddeialog fod yn ystyrlon, wedi'i thargedu ac yn gynrychioliadol • Efallai y bydd angen i Fwrdd Dechrau'n Dda BPRh fod yn rhan o unrhyw gyfranogiad gan bobl ifanc <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid trafod cyfranogiad ieuenctid ymhellach mewn cyfarfod o'r BGC yn y dyfodol. 	<p>Lee Patterson</p>
8.	<p>Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Partneriaid BGC i adolygu'r ymateb arfaethedig i adborth y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion, ar waith i atal delio cyffuriau a throseddau'n ymwneud â chyffuriau yng Nghaerdydd, a chyflwyno unrhyw sylwadau terfynol i Sian Sanders erbyn 2 Rhagfyr 2021. 	<p>Pawb</p>
9.	<p>Unrhyw Fater Arall a Rhagolwg</p> <p>Mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2021 wedi cael eu dosbarthu er gwybodaeth.</p>	
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 15 Chwefror 2022 • 9 Mawrth 2022 	